Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

19 Mawrth 2018

Annwyl Kirsty,

Y Cyfnod Sylfaen

Fel y gwyddoch, yn y cyfarfod ar 14 Mawrth, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant ar ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17.

Nododd y Pwyllgor fod yr Adroddiad Blynyddol yn dweud nad yw penaethiaid mewn tua thri chwarter o ysgolion yn deall egwyddorion ac addysgeg mewn perthynas ag arfer da yn y Cyfnod Sylfaen.

Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Prif Arolygydd eto ei bod yn siomedig nad oedd ond oddeutu chwarter yr ysgolion cynradd yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llawn. Dywedodd Estyn am y sefyllfa, "it's almost holding children back to an extent. They're making good progress, but they could be making even more progress".

Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael amlinelliad o'ch barn ynghylch y ffordd y mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu a gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerir yn hyn o beth.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb ar y mater hwn.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565